Rhaglen tystiolaeth marchnad lafur

# CYNGHORION DA ar gyfer dylunio ac ymwreiddio gwybodaeth rheoli a gwerthuso mewn rhaglenni

## Ar gyfer pwy mae'r canllawiau yma?

- **Gwneuthurwyr Penderfyniadau**
- **Staff Polisi**
- **Staff Gwerthuso a Data**

**Staff Cyflenwi**

## Pryd ddylwn i ddefnyddio'r canllawiau yma?

**Cam dylunio a chyflenwi parhaus.**

*Mae cynnwys gwybodaeth rheoli a gwerthuso mewn rhaglenni gwaith ac iechyd o'r cychwyn cyntaf yn hanfodol i ddeall beth sy'n gweithio, ar gyfer pwy, lle (yn cynnwys mewn gwledydd ac ardaloedd datganoledig) a pham. Mae hyn yn golygu fod angen comisiynu systemau a gwerthusiadau Gwybodaeth Rheoli wrth ochr y rhaglenni a werthusant.*

Dengys tystiolaeth o Dreialon Iechyd a Rhaglen Forging Futures y Cumbria Youth Alliance bod rhaglenni effeithlon yn integreiddio gwybodaeth rheoli a gwerthuso yn eu dyluniad creiddiol.

## CYNGOR DA: Dylunio gofynion Gwybodaeth Rheoli a gwerthuso wrth ochr y model cyflenwi.


**Mae cynllunio gofynion Gwybodaeth Rheoli a gwerthuso wrth ochr y model cyflenwi yn sicrhau y cesglir y data cywir.** Mae hyn yn helpu i osgoi bylchau mewn tystiolaeth, sefydlu amseriadau a dulliau clir ar gyfer casglu data a sicrhau fod rolau a chyfrifoldebau casglu data yn glir. Er y dylai maint y gwerthuso adlewyrchu'r adnoddau sydd ar gael a hyd y rhaglen, mae cynllunio cynnar yn bwysig.

**Dylai comisiynwyr sicrhau y caiff cynlluniau ar gyfer gweithgareddau gwerthuso cymesur eu gwneud ar y cam dylunio.**

- Ar gyfer rhaglenni mwy, tebyg i Dreialon Iechyd, gallai hyn gynnwys effaith, proses ac elfennau economaidd, a gefnogir gan ddata gweinyddol, arolygon a data ansoddol
- Ar gyfer rhaglenni llai, gallai hyn gynnwys gwerthuso proses wedi ei seilio ar ymchwil ansoddol a dadansoddiad o ddata gwybodaeth rheoli.



## CYNGOR DA: Sicrhau galluedd staff a chyllid digonol.



**Mae Gwybodaeth Rheoli a gwerthuso cadarn yn allweddol i ddeall perfformiad ac effaith rhaglen, gan ddynodi 'beth sy'n gweithio' mewn cyflenwi a dynodi heriau sy'n dod i'r amlwg.** I fod yn effeithlon, maent angen galluedd dadansoddi, staff cyflenwi wedi eu hyfforddi a chyllid digonol i ddatblygu offer casglu data. Manteisiodd y Treialon Iechyd o gael cyllid i ymwreiddio'r nodweddion hyn ar draws y rhaglen ond efallai na fydd hyn yn ymarferol ar gyfer pob rhaglen.

Cyn belled ag sy'n ymarferol, dylai comisiynwyr, fan leiaf:

- Fuddsoddi mewn systemau data sy'n cefnogi casglu data a dadansoddi.
- Rhoi arweiniad a hyfforddiant i staff mewn defnyddio systemau data, gan gasglu'r wybodaeth ofynnol yn effeithiol a deall sut y gellir defnyddio data a gwybodaeth yn effeithlon.
- Sicrhau bod darparwyr yn deall pwysigrwydd casglu data yn gywir a chyson.

ies institute for employment studies

L&W SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH

Department for Work & Pensions

## CYNGOR DA: Cael damcaniaeth glir ar gyfer newid i lywio gofynion data a gwerthuso ac adolygu a diweddaru hynny yn gyson.


**Mae damcaniaeth newid yn helpu i ddiffinio sut y disgwylir i weithgareddau arwain at ganlyniadau a fwriedir,** yn cynnwys camau canolraddol tebyg i wella hyder neu lesiant. Gall roi fframwaith strwythuredig ar gyfer cyflenwi a gwerthuso, gan sicrhau y caiff y data cywir ei gasglu i fonitro cynnydd.

Mae'n bwysig y caiff unrhyw newidiadau i lwybrau cyflenwi a chanlyniadau rhaglen eu monitro, gyda unrhyw newidiadau yn cael eu nodi'n glir a'u dangos mewn cynlluniau gwybodaeth rheoli a gwerthuso.

Dylai comisiynwyr:

- **Sicrhau fod rhaglenni yn diffinio canlyniadau a fwriedir yn gontractiol a'r camau canolraddol i'w cyflawni** (tebyg i welliannau mewn hyder neu lesiant).
- **•Ystyried y data sydd ei angen i olrhain cynnydd ar y canlyniadau hyn** a sut y gellir casglu hyn o fewn Gwybodaeth Rheoli a gweithgareddau gwerthuso.

Fe wnaeth y Treialon Iechyd ddatblygu damcaniaethau mewnol o newid i fapio sut y disgwylid i ymyriadau arwain at ganlyniadau. Fe wnaeth y fframweithiau hyn lunio cyflenwi a gwerthuso rhaglen, a chawsant eu hadolygu a'u mireinio yn ystod eu cyflenwi.





## CYNGOR DA: CCynnal profion ymarferoldeb i ddeall gofynion rhannu a chysylltu data.

**Mae deall gofynion rhannu a chysylltu data yn gynnar yn helpu i sicrhau y gellir defnyddio data yn effeithiol ar gyfer gwerthuso cadarn.** Mae profion ymarferoldeb yn galluogi rhaglenni i ddynodi rhwystrau posibl, sefydlu trefniadau priodol ar gyfer llywodraethiant a rhannu data a dylunio dulliau dadansoddi. Gall cysylltu gwahanol ffynonellau data alluogi rhaglenni i olrhain canlyniadau dros gyfnod, deall pa ddulliau sy'n gweithio orau wrth gyflenwi ar gyfer gwahanol grwpiau a datblygu grwpiau cymharu.

Roedd nifer o'r gwerthusiadau a ystyriwyd yn yr adolygiad o dystiolaeth, yn arbennig y rhai a gynhaliwyd yn defnyddio PHIRST a chymorth yr Young Futures Foundation (yn cynnwys Rhaglen Forging Cutures y Cumbria Youth Alliance (CYA), yn cynnwys astudiaethau ymarferoldeb i ymchwilio hyn.


# CYNGOR DA: Alinio ac ymwreiddio casglu Gwybodaeth Rheoli gyda chyflenwi arferol, rheoli perfformiad a dysgu.

**Mae rhaglenni effeithlon yn integreiddio Gwybodaeth Rheoli gyda phrosesau bob dydd fel y caiff ei gasglu a'i ddefnyddio mewn modd cyson gan staff cyflenwi.** Os yw prosesau Rheoli Gwybodaeth yn rhy gymhleth neu feichus, gall staff cyflenwi ystyried eu bod yn rhy fiwrocrataidd ac yn mynd â'u hamser ymaith o gefnogi defnyddwyr gwasanaeth.

Mae bod â ffocws ar gasglu'r isafswm data sydd ei angen ar gyfer yr effaith mwyaf a sicrhau fod staff yn deall gwerth Gwybodaeth Rheoli yn helpu i wella ansawdd data, defnydd staff ohono ac effeithlonrwydd rhaglen. Mae adolygu data yn rheolaidd hefyd yn cefnogi rhannu dysgu a datrys problemau ar draws partneriaid.

I wella integreiddio Gwybodaeth Rheoli gyda chyflenwi, dylai rhaglenni:

- **Ddefnyddio cynlluniau peilot lle'n bosibl i ddynodi pa ddata y mae'n rhesymol ei gasglu** a sut, dynodi anghysonderau a gostwng y baich ar staff cyflenwi. Mae hyn yn cefnogi cytuno ar ddiffiniadau safonol ac isafswm setiau data cyn cynyddu maint.
- **Sicrhau fod casglu data Gwybodaeth Rheoli yn casglu cyn lleied ag sydd angen ar gyfer yr effaith mwyaf**, heb gofnodi data gormodol a diangen. Dylai rhaglenni ystyried cyfyngu'r data a gesglir i'r hyn sydd ei angen i ddisgrifio nifer y bobl a gefnogir, eu nodweddion neu anghenion, allbynnau a chanlyniadau a gafwyd a'r gweithgredd a wnaed. Bydd hyn yn eich helpu i ddeall a dangos y cysylltiad rhwng gweithgaredd a chanlyniadau a phwy gyflawnodd hynny.
- **Dynodi ffyrdd y gellir sefydlu casglu data mewn gweithgareddau cyflenwi a thrafodaethau.** Sefydlodd CYA eu teclyn gwerthuso mewn sesiynau un i un, gan gyfuno cymorth unigol gyda chasglu gwybodaeth rheoli. Defnyddiodd gweithwyr cyswllt a phobl ifanc ef fel asesiad wedi ei strwythuro, sgyrsiol i ymchwilio deg angen cymorth a chyd-ddylunio cynlluniau gweithredu unwaith y sefydlwyd perthynas.
- **Sicrhau bod staff yn cefnogi gweithgareddau casglu a gwerthuso gweithgareddau Rheoli Gwybodaeth drwy rannu canfyddiadau yn rheolaidd a chysylltu hyn gydag ymarfer;** er enghraifft, fe wnaeth Rhaglen Forging Futures CYA rannu data rheoli gwybodaeth yn dangos nifer y bobl ifanc a gefnogwyd ac a symudodd i waith ar LinkedIn i hyrwyddo ei wasanaeth.
- **Cynnal adolygiadau a fforymau rheolaidd i ddadansoddi data ac ysgogi trafodaethau ar draws partneriaid.** Dylai'r fforymau hyn gefnogi rhannu datrys problemau a gwella parhaus ar y rhaglen.



Mae'r cynghorion da yma eu seiliedig ar dystiolaeth gwerthuso a ddynodwyd drwy Asesiad Cyflym o Dystiolaeth ar yr hyn sy'n galluogi dylunio, darparu a gwerthuso rhaglenni gwaith ac iechyd lleol yn effeithlon.

Rhoddwyd graddiad hyder o dangosol – canolig i'r cynghorion da yn y canllawiau yma. Mae hyn yn golygu y seiliwyd y cynghorion da hyn ar dystiolaeth awgrymol ac na fedrir eu cysylltu'n uniongyrchol â chanlyniadau. Mae hefyd yn golygu y cafwyd tystiolaeth o leiaf un astudiaeth gyda graddiad canolig yn defnyddio dull Asesu Ansawdd Tystiolaeth Cronfa Gwaddol Ieuenctid.